# Rhaglen Hyfforddiant Sgiliau Ymchwil

## 2025 – 26



COLEG CYMRAEG CENEDLAETHOL

# Rhaglen Hyfforddiant Sgiliau Ymchwil 2025-26

## Cyflwyniad

Croeso i Raglen Hyfforddiant Sgiliau Ymchwil 2025-26.

Darperir yr hyfforddiant sgiliau ymchwil hwn gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol mewn partneriaeth â sefydliadau addysg uwch Cymru. Hon yw'r unig raglen o hyfforddiant ymchwil a geir yn gyfan gwbl trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae Rhaglen Sgiliau Ymchwil y Coleg yn **agored i fyfyrwyr ôl-radd o bob prifysgol**, ac wedi'i theilwra'n arbennig er mwyn cefnogi a chynnig hyfforddiant ymarferol i bob ymchwilydd gyrfa-gynnar – p'un a wyt ti'n astudio ar gyfer gradd Meistr, MPhil, doethuriaeth neu ymchwil ôl-ddoethurol.

Bydd yr hyfforddiant yn ymdrin â materion megis trefnu a chynllunio dy ymchwil, trin a thrafod ffynonellau, dulliau ymchwil, sgiliau ysgrifennu academaidd, yn ogystal â materion yn ymwneud ag iechyd a lles, a hyrwyddo gyrfa a chyflogadwyedd.

Darperir yr hyfforddiant gan gyflwynwyr profiadol, boed yn staff academaidd sy'n ymchwilwyr profiadol, neu'n staff proffesiynol mewn unedau cefnogi.

Yn ôl yr arfer, daw'r Rhaglen i ben gyda chynhadledd ymchwil ryngddisgyblaethol ar ddiwedd mis Mehefin 2026.

**Nid oes cost i fynychu'r hyfforddiant:** darperir llety a lluniaeth am ddim, ac ad-delir costau teithio. Mae croeso mawr i bawb - beth bynnag yw dy bwnc a phwy bynnag sy'n dy gyllido.

Mae'r rhaglen hefyd yn ffordd o greu cymuned ac yn helpu meithrin ymdeimlad o berthyn, felly ymuna â chymuned ôl-raddedig y Coleg a manteisia ar y cyfleoedd sydd ar gael i ti.

I ymuno â'r **rhestr e-bost** i dderbyn gwybodaeth berthnasol, clicia yma.


**Ffurflen gofrestru**

# Fframwaith Datblygu Ymchwilwyr Vitae

Datblygwyd y Rhaglen mewn cydweithrediad â'r sefydliadau addysg uwch yng Nghymru, ac mae'r holl weithdai yn seiliedig ar y meysydd a adwaenir gan Fframwaith Datblygu Ymchwilwyr Vitae ar gyfer cynhyrchu a meithrin ymchwilwyr effeithiol.

Bydd nifer o'r gweithdai yn pontio mwy nag un maes, ond nodir mewn cromfachau ar y dudalen nesaf beth fydd prif sylw'r gweithdai a sut maen nhw'n perthyn i Fframwaith Vitae.

Mae prifysgolion Cymru wedi mabwysiadu rhai neu'r cyfan o'r gweithdai hyn o fewn eu rhaglenni hyfforddi ymchwil eu hunain. Ceir fwy o wybodaeth am ddarpariaeth hyfforddiant ymchwil eich prifysgol chi ar wefan y brifysgol neu drwy gysylltu â chanolfan ôl-raddedigion eich prifysgol.



# Rhaglen Sgiliau Ymchwil 2025/26

**16 Medi 2025: Caerfyrddin**

Cyfarfod cynefino i groesawu deiliaid newydd Ysgoloriaethau Ymchwil y Coleg.

**14 – 15 Hydref 2025: Aberystwyth**

[Rhagor o wybodaeth]

Cwrs preswyl yn cynnwys y gweithdai isod:

- Cyflwyniad i ymchwil (B1)
- Rheoli'r goruchwyliwr (D1)
- Dulliau ymchwil (A1)
- Cynllunio a chyflwyno poster ymchwil (D2)
- Moeseg ymchwil (C1)
- Taith a chyflwyniad i'r Llyfrgell Genedlaethol (A1)
- Llunio adolygiad o’r llenyddiaeth (C2)


**12 – 13 Tachwedd 2025: Bangor**

[Rhagor o wybodaeth]

Cwrs preswyl yn cynnwys y gweithdai isod:

- Rhoi graen ar eich gwaith (A3)
- Rheoli amser a phwysau gwaith (B2)
- Cymraeg ar y cyfrifiadur (A1)
- Cydweithio ar gyfer ymchwilwyr (D1)
- Sgiliau cyfathrebu a chyflwyno (D2)
- Methodoleg dyfynnu a chyfeirio at ffynonellau (C2)
- Cyfieithu, trawsieithu a rheoli termau (A1)
- Deallusrwydd artiffisial (A1)

**[Ffurflen gofrestru]**



# Rhaglen Sgiliau Ymchwil 2025/26

## 10 – 11 Rhagfyr 2025: Caerdydd

Rhagor o wybodaeth

Cwrs preswyl yn cynnwys y gweithdai isod:

- Ysgrifennu academaidd (A3)
- Paratoi a chyflwyno papur cynhadledd (D2)
- Ymchwil a chyhoeddi (D2)
- Iechyd meddwl a lles (B2)
- Trefnu a rheoli eich ymchwil (C2)
- Cynllunio, strwythuro ac ysgrifennu'r PhD (C2)
- Cyflwyniad i Python (A1)
- Sgiliau Microsoft i fyfyrwyr ymchwil (A1)
- Sgiliau ysgrifennu 1:1 (A3)

## 28 – 29 Ionawr 2026: Bangor

Cwrs preswyl yn cynnwys y gweithdai isod:

- Paratoi at y Viva (C2)
- Paratoi cais am grant (C3)
- Trafodaeth gyda chyn-fyfyrwyr (D1)
- a mwy!

## 20 Mawrth 2026: Abertawe

Rhagor o wybodaeth

Cwrs undydd hyfforddiant sgiliau addysgu i fyfyrwyr ymchwil.

## 25 – 26 Mehefin 2026: Aberystwyth

Cyfarfod blynyddol y cynllun ysgoloriaethau ymchwil a Chynhadledd Ymchwil aml-ddisgybaethol y Coleg. Bydd yr alwad am bapurau yn agor ym mis Ionawr - cadwa lygad ar wefan a chyfryngau cymdeithasol y Coleg am fanylion!



# Adborth

“Rydych chi wir yn cael ymdeimlad o fod yn rhan o gymuned ac mae'r cyfle i ddod i adnabod myfyrwyr eraill ar y rhaglen yn wych”



“Roedd cymysgedd o bob dim sydd angen er mwyn cwblhau PhD. Roedd hefyd yn gyfle gwych i gwrdd â myfyrwyr eraill o Brifysgolion eraill oedd yn yr un cwch â mi. Rwy'n dal i gadw mewn cysylltiad gyda nhw“




“Pob un sesiwn yn dda ac yn werthfawr i’r siwrne PhD. Wedi mwynhau!”

# Enghraifft o amserlen cwrs

| **Diwrnod 1** | |
|---|---|
| 10:15 - 10:30 | Cyrraedd, croeso, paned |
| 10:30 - 11:00 | Dod i adnabod ein gilydd |
| 11:00 - 12:30 | Sesiwn 1 |
| 12:30 - 13:15 | Cinio |
| 13:15 - 14:30 | Sesiwn 2 |
| 14:30 - 14:45 | Egwyl a phaned |
| 14:45 - 16:15 | Sesiwn 3 |
| 16:15 - 16:30 | Egwyl a phaned |
| 16:30 - 17:30 | Sesiwn 4 |
| 19:00 | Swper |



| **Diwrnod 2** | |
|---|---|
| 09:15 - 9:30 | Cyrraedd a phaned |
| 09:30 - 11:00 | Sesiwn 5 |
| 11:00 - 11:15 | Egwyl a phaned |
| 11:15 - 12:45 | Sesiwn 6 |
| 12:45 - 13:30 | Cinio |
| 13:30 - 15:00 | Sesiwn 7 |
| 15:00 - 15:15 | Egwyl a phaned |
| 15:15 - 16:15 | Sesiwn 8 |
| 16:15 | Cloi a gadael |



**Ffurflen gofrestru**

Gwerddon

# Yr e-gyfnodolyn academaidd Cymraeg

## Ydych chi'n gwneud ymchwil academaidd?

Beth am ystyried cyhoeddi yn Gwerddon?



Mae Gwerddon yn cyhoeddi gwaith ysgolheigaidd gwreiddiol ar draws ystod eang o ddisgyblaethau academaidd - o ddaearyddiaeth i ieithyddiaeth, o ffiseg i gymdeithaseg.

**Ewch i gwerddon.cymru i weld:**

- Y rhifyn diweddaraf
- Dros 130 o erthyglau
- Sut i gyfrannu erthygl

COLEG CYMRAEG CENEDLAETHOL

gwerddon.cymru
@gwerddon

# Pam cyhoeddi yn Gwerddon?




1. Mae modd cyhoeddi ar unrhyw bwnc academaidd
2. Barn arbenigol ar eich gwaith a chefnogaeth termau ac iaith
3. Mae Gwerddon yn gydnaws â gofynion y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF)
4. Llwyfan rhad ac am ddim i gyhoeddi gwaith academaidd
5. Adolygiadau ‘dwbl-ddall’
6. Cyfle i gyhoeddi drwy gyfrwng y Gymraeg
7. Sylw i’ch gwaith ar y cyfryngau cymdeithasol



**Am fwy o wybodaeth cysylltwch â**

gwybodaeth@gwerddon.cymru

Gwerddon

COLEG CYMRAEG CENEDLAETHOL

Fy ffefrynnau | Termau | EN CY | A A A

# Porth Adnoddau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol


Llyfrgell ar-lein ar gyfer adnoddau addysgu digidol Cymraeg a dwyieithog

Chwilio am adnodd | Pwnc | Math o adnodd | Lefel | Tagiau | CHWILIO




Ychwanegwyd: 18/06/2025 | 659

**Cynhadledd Ymchwil 2025**




Ychwanegwyd: 14/03/2025 | 717

**TestunRhydd**




Ychwanegwyd: 07/03/2025 | 829

**Llesiant Ymchwilydd Cymru**




Ychwanegwyd: 02/10/2024 | 1.9K

**Deallusrwydd artiffisial ac ymchwil**




Ychwanegwyd: 02/10/2024 | 841

**Dylunio a dadansoddi arolygon**




Ychwanegwyd: 02/10/2024 | 874

**Cynllunio a chyflwyno grwpiau ffocws**



Ychwanegwyd: 30/11/2023 | 1.1K

**Darlith Flynyddol Edward Lhuyd**




Ychwanegwyd: 13/06/2024 | 3.6K

**Cynhadledd Ymchwil 2024**




Ychwanegwyd: 26/03/2024 | 1.7K

**Dulliau Ymchwil ac Ystadegau**

COLEG CYMRAEG
CENEDLAETHOL